



Llais y Llan

R H I F Y N T Y M O R Y R H Y D R E F 2 0 1 1

Dyddiadau Pwysig

Hydref 5ed - dim Ysgol (streic).

Hydref 6ed - Gwasanaeth gan Dr Owain Coleg y Bala.

Hydref 6ed - Gweithdy Neil Dalrymple yn Rhuthun (bl 5 a 6).

Hydref 11eg - Noson Rieni.

Hydref 14eg - Ysgol ar gau (H.M.S.).

Hydref 17eg - Cystadleuaeth 5 bob ochr yr Urdd bl. 5 a 6 (Canolfan Hamdden y Bala).

Hydref 18fed - Gwasanaeth Diolchgarwch, Hen Capel.

Hydref 18fed Noson agored i bl 6 yn Ysgol y Berwyn.

Hydref 20fed Marial Edwards gyda'r grŵp Eco.

Hydref 21ain Cau am hanner Tymor.

Ysgol O M yn fuddugol!!

Nos Iau 15fed o Fedi, enillodd tîm pêl-droed yr ysgol rownd derfynol Cystadleuaeth Pêl-droed y Stryd Campau'r Ddraig!

Cafwyd gwledd o bêl-droed, ac roedd y safon yn uchel iawn!

Yn y rownd gynderfynol, llwyddodd y tîm i drechu Ysgol Bro Tryweryn 6-1. Roedd Gwydion ar dân wrth iddo sgorio pedair gôl, gyda Caio yn sgorio'r ddwy arall.

Ysgol Bro Tegid oedd yn wynebu'r tîm yn y rownd derfynol, ac roedd hi'n argoeli i fod yn gêm agos iawn!



Dechreuodd O M yn gryf gyda chwip o gôl gan Caio, ond llwyddodd Bro Tegid i unioni'r sgôr i'w gwneud hi'n gyfartal.

Wrth i'r gêm fynd yn ei blaen, roedd yn rhaid i amddiffynwyr O M weithio'n arbennig o galed

wrth i Bro Tegid geisio sgorio eu hail gôl.

Ond, O M gaeth y gair olaf wrth i Gwydion lwyddo i sgorio dwy gôl gampus i ennill y gêm 3-1.

Llongyfarchiadau mawr i'r tîm i gyd!!

Cyngor Ysgol 2011/12!

Dyma aelodau'r Cyngor Ysgol am y flwyddyn nesaf!

Cadeirydd: Kane

Ysgrifenyddion: Fflur a Gwennan

Trysorydd: Alaw

Cynrychiolwyr:

Abel, Ifan, Swyn, Elliw, Ioan, Tudur, Guto, Joe, ac Elis.



Casglu arian i Nepal!

Diolch i bawb wnaeth gasglu arian i Gartref Plant Sonrisa yn Nepal. Yn anffodus, doedd Bishnu Rai ddim yn gallu dod heibio ond fe ddaeth i Gerrig y Drudion i gasglu arian gan Mrs Ellis - Jones. Rydym wedi gyrru £100 i Nepal drwy law Bishnu!

Bu disgyblion blwyddyn 3, 4, 5 a 6 yn ysgrifennu llythyrrau iddo ddychwelyd i'r plant yn Sonrisa. Diolch i bawb a fu wrthi'n brysur yn



Aron, Llyw, Elis a Tomos



Ydych chi'n cofio hanes y Carchar ddiwedd tymor yr Haf? Bu plant blwyddyn 3, 4, 5 a 6 yn aros yn yr ysgol o 9.00 y bore hyd 9.00 y nos i gasglu arian i achos da Nepal!!

A goeliwch chi byth ein bod wedi casglu £400 ar y diwrnod hwnnw? Anhygoel yn de! Diolch o galon i bawb wnaeth gasglu'r holl arian!

Sgwad Sgwennu Gwynedd

Llongyfarchiadau mawr i Hari Williams am gael ei dderbyn i'r Sgwad Sgwennu trwy Wynedd i gyd!

Mae Hari eisoes wedi bod yn gweithio gyda'r Prifardd Meirion Macintyre Hughes!

Efallai y bydd Hari yn Brifardd ei hun un dydd!





Cyngor Eco

Cyngor Eco.

Dyma lun y Cyngor Eco newydd gyda Marial Edwards - Swyddog Ynni y Sir! Bu Marial draw yn trafod gwaith a rheolau'r Cyngor.

Swyddogion;

Cadeirydd: **Hari**

Ysgrifennydd: **Mared a Gwern**

Trysorydd: **Gwydion**



Pwy yw'r dyn mawr cryf hwn tybed? Wel neb llai na Gwynant! Daeth Gwynant draw i ddangos i'r plant bach sut mae torri coed, ac i geisio dysgu Mrs Davies sut i dorri coed tan! Hefyd, dangosodd i'r plant sut roedd gwneud cadair allan o goed hefyd!! Fe wnaeth y plant i gyd fwynhau! Diolch yn fawr Gwynant!

Byw yn yr ardd!



Fel rhan o'm gwaith Cyngor Eco, rydym wedi bod wrthi'n tyfu tatws yn yr ysgol!

Os y gofynnwn ni'n garedig, efallai y gwneith Anti Catrin eu defnyddio i goginio tatws rhost blasus ar ein cyfer amser cinio!

Neil Dalrymple

Fel y gwddoch, mae'r disgyblion eisoes wedi bod wrthi'n brysur yn gweithio ar y murlun fydd yn cael ei arddangos yn yr ysgol. Cafodd disgyblion blwyddyn 5 a 6 ymweld â stiwdio Neil Dalrymple yn Ruthun i beintio'r gwaith. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr iawn i gael y gwaith wedi'i osod yn yr ysgol.

Yn ystod yr ymweliad, cawsom brofiad o weld gwaith clai Olivia Brown. Roedd y cwn hynod wedi'u gwneud allan o glai hefyd!

Roedd arddangosfa o fasgedi yno hefyd - gwerth eu gweld! Mae croeso i chi fynd draw i stiwdio Neil eich hun!!



Clwb cyfrifiadur



Mae Mr Puw wrthi'n brysur yn cynnal clwb cyfrifiadur gyda oedolion y pentref. Os oes gennych ddi-ddordeb, mae croeso i chi gysylltu gyda'r ysgol!



Cofiwch, bydd y plant yn casglu hen ddillad, bagiau, esgidiau ac yn y blaen ar ddydd Mawrth, Tachwedd 29ain!